

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL IONAWR 2019
7 Ionawr 2018 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn, Glyn Griffiths

2. DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Clerc ddiddordeb yn eitem 4.9, sef Cyflog y Clerc, a gadawodd yr ystafell pan y cafodd y mater ei drafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 6 Tachwedd 2018.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Rhydwen Roberts

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Richard Jones, Nia Povey, Rhydwen Roberts, Nyfain Wynn, Llio Griffiths, Glyn Griffiths, Nia Povey, Gareth Thomas,
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Cysylltu Cymunedau

Mae Michelle Clarke yn bwriadu cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd ar 16 Ionawr er mwyn trafod opsiynau posibl.

Mae'n debyg felly y bydd hi'n mynychu cyfarfod mis Mawrth o'r Cyngor Cymuned er mwyn rhoi diweddariad.

4.2 Arosfan Fysiau

Yn dilyn amcangyfrif Cyngor Gwynedd o tua £40,000 i ddarparu arosfan fws y tu allan i Siop Llanforthen cafwyd trafodaeth ar i'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith ei hun.

Fodd bynnag, deuthpwyd i'r casgliad y byddai'r gost yn parhau i fod yn sylweddol ac mai anodd fyddai torri'r costau oherwydd oblygiadau iechyd a diogelwch.

4.3 Mynwent Tan Lan

Cafwyd cyfarfod safle efo Colyn Jones o RBA Ltd ddiwedd 2018 er mwyn trafod creu terasau yn y fynwent gan greu plotiau claddu ychwanegol .

Disgwylir derbyn pris gwneud gwaith cychwynnol erbyn cyfarfod mis Mawrth.

4.4 Aseiad Risg – Y Ganolfan

Penderfynwyd y dylid cynnal aseiad risg o'r Ganolfan wedi cynnal y cyfarfod cymunedol i drafod dyfodol y Ganolfan yn ystod yr wythnosau nesaf.

4.5 13 Garreg Frech

Bu'r Clerc mewn cysylltiad â Empty Homes Wales. Bu iddynt hwy ysgrifennu at gyfeiriad y perchennog yng Nghaer. Ni chawsant ateb. Ymddengys mai meddygfa yng nghanol Caer sy'n perthyn i aelodau teulu'r perchennog yw'r cyfeiriad sydd yng Nghaer.

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle efo cynrychiolwyr Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.

4.6 Diogelwch a Chyflymdra Traffig, Llanfrothen

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn mesur cyflymder y traffig y tu allan i'r ysgol yn Llanfrothen, ac yn fodlon gwneud y fan honno yn barth 20 mya.

Fodd bynnag, parheir i ddisgwyl ateb parthed diogelwch y ffordd ger y gofgofofn yn Llanfrothen.

Cytunodd y Cynghorydd Gareth Thomas i ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad ar hyn.

4.7 Tŷ'n Llan/Old School House, Llanfrothen

Mae Adran Gorfodaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i'r mater ac wedi danfon llythyr at y perchnogion yn mynegi pryder am dorri rheolau cynllunio.

4.8 Llwybrau Cyhoeddus

Rhaid aros tan ddechrau'r flwyddyn ariannol 2019/20 cyn cael gwybod faint fydd Cyngor Gwynedd yn ei gyfrannu at dorri'r llwybrau cyhoeddus.

Anodd felly fydd gnweud penderfyniad o ran pa lwybrau i'w torri hyd nes gwybod faint yn union fydd y cyfraniad ariannol.

4.9 Cyflog y Clerc

Gadawodd y Clerc yr ystafell pan drafodwyd y mater yma.

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan Un Llais Cymru, oedd yn seiliedig ar ofynion gwaith y Clerc a'r oriau gwaith tebygol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid talu cyflog i'r Clerc ar bwyntiau 18-22 ar lefel LC1, (ar sail pro rata), sef:-

18	£18870
19	£19446
20	£19819
21	£20541
22	£21074

Cyfrifwyd oriau misol y Clerc fel 25 awr y mis.

Bydd angen llunio cytundeb cyflogaeth ar gyfer y Clerc a gwneud trefniadau Talu Wrth Ennill (TWE)

4.10 Coeden yn gwyro dros y B4410

Mae'r goeden yn awr wedi ei thorri.

5. Gohebiaeth

- (a) Bwletin Gwasanaeth Hamdden Gwynedd

Derbyniwyd er gwybodaeth.

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cyflog a chostau Clerc, Tachwedd a Rhagfyr 2018
- 6.2** Ad-dalu Clerc, Cyngor Gwynedd, Bin Masnachol Mynwent
Tan Lan £38.00
- 6.3** Ad-dalu Clerc Dwr Cymru £66.87
- 6.4** Ad-dalu Clerc Cyngor Gwynedd Treth Annomestig Y
Ganolfan, gweddill treth tan 31 Mawrth 2019 £312.00
- 6.5** Cyngor Gwynedd Anfoneb 9 Hydref 2018 Gwastraff
Masnachol 26/10/18 – 31/03/19 £38.00
- 6.6** Un Llais Cymru - Adolygu Cyflog y Clerc £250.00
- 6.7** Cyngor Gwynedd Archwilio Mewnol 2017/2018 £180.00
- 6.8** Cytuno ar Braesept 2019/2020

Cafwyd trafodaeth ar gyllideb y Cyngor Cymuned ar gyfer 2019/20 a'r gofynion ariannol. Ystyriwyd y papur a baratowyd gan y Clerc.

Penderfynwyd codi'r Praesept i £7,300.

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Gwynedd

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn mynegi anfonlonrwydd ar fwriad y Comisiwn i uno Cymuned Llanfrothen efo cymunedau Beddgelert, ward Pren-Teg o Gymuned Dolbenmaen a ward Tremadog o dref Porthmadog wedi ei chynrychioli gan un cynghorydd Sir. Mae Cymuned Llanfrothen yn hanesyddol wedi bod efo mwy o gysylltiad efo Penrhyndeudraeth a Meirionnydd.

8.2 Ymgynghoriad Polisi Gosod Tai Cymdeithasol Gwynedd

Cefnogwyd bwriad Cyngor Gwynedd i newid y polisi o ran gosod tai cymdeithasol yng Ngwynedd. Croesawyd y ffaith y byddai'r polisi Newydd yn decach i drigolion lleol.

8.3 Ail strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Eluned Morgan yn mynegi pryder yn horiad y grant a roddir i Gyngor Gwynedd ar gyfer cynnal y Canolfannau Iaith gan mai hi yw'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

8.4 Ymgynghoriad Polisi Cynllunio Atodol Gwynedd a Mon

Derbyniwyd er gwybodaeth

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai **nos Lun Mawrth 4 2019 am 7 yh**